**Cofnodion Cyfarfod o Fforwm Derbyn Ceredigion a gynhaliwyd yn Ystafell Aeron Fach, Campws Felin-fach ar Ddydd Mawrth 21 Hydref, 2014.**

6.00 pm- 6.30 pm

**Yn bresennol:**
Cynghorydd Hag Harris (Cadeirydd), Lodwick Lloyd (Llywodraethwr Ysgol)

**Swyddogion yn Bresennol:** Barry Rees a Nia James (Gwasanaethau Dysgu), Peter Leggett (Ysgol Padarn Sant), Kay Davies (Gwasanaethau Democrataidd).

**1 Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Ymddiheurodd Carol Davies, John Gillibrand a David Williams am eu habsenoldeb.

**2 Datgelu Buddiannau Personol**
Ni ddatgelwyd Buddiannau Personol.

**3 Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mai, 2014**
**CYTUNWYD** i gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mai, 2014 fel cofnod cywir.

**4 Materion yn codi o'r cofnodion**
Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**5 Dogfen Gwybodaeth i Rieni**
Cyhoeddwyd y Ddogfen Gwybodaeth i Rieni ar wefan y Cyngor. Mae dolen i'r ddogfen wedi cael ei hanfon at y rhieni. Nodwyd bod cais wedi ei dderbyn yn ddiweddar am wybodaeth gan bapur newydd lleol a gafodd ei chyfeirio wedyn at y ddogfen ar y wefan er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen.

**CYTUNWYD** i nodi'r wybodaeth a dderbyniwyd.

**6 Apeliadau Derbyn**
Dosbarthwyd tablau gwybodaeth yn y cyfarfod.

**CYTUNWYD** i nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

**7 Rhifau Derbyn / 8 Polisi Derbyn**
Dosbarthwyd copïau o'r Polisi yn y cyfarfod. Tynnwyd sylw at Eitem rhif 5, a oedd yn caniatau efeilliaid neu frodyr a chwiorydd o'r un genedigaeth i gael lle mewn ysgol fel diwygiad i'r polisi. Tynnwyd sylw at Eitem 12, mewn perthynas â phlant o bersonél Lluoedd Arfog y Deyrnas Unedig a Gweision eraill y Goron (yn cynnwys diplomyddion), fel ychwanegiad at y polisi. Amgaewyd hefyd y niferoedd derbyn gyda'r polisi a nodwyd y wybodaeth hon.

**CYTUNWYD** i nodi'r wybodaeth a dderbyniwyd.

**9 Gwasanaeth Cefnogi Ymddygiad Ceredigion**
Nodwyd bod presenoldeb yn yr ysgol yn parhau i fod yn dda. Nid yw newid ERW i'r proffil absenoldeb awdurdodedig gan ysgolion yn caniatáu i

ysgolion i awdurdodi disgyblion i fod yn absennol ar wyliau yn ystod tymor yr ysgol.Bydd diwrnodau absenoldeb oherwydd gwyliau yn cael eu cynnwys yn y ffigurau absenoldeb heb ganiatâd.

Nodwyd fod y sefyllfa yn parhau o ran dim gwaharddiadau parhaol ac mae nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol wedi gostwng i lefel isel iawn mewn ysgolion uwchradd ac isel iawn mewn ysgolion cynradd. Nodwyd y gwaith da a llwyddiant yr UCDau. Mae protocol newydd ar gyfer derbyniadau UCD yn cael ei datblygu ar hyn o bryd.

**CYTUNWYD** i nodi'r adroddiad.

**10 Unrhyw fater arall**
i. **Arolwg o Fforwm Derbyn** – Dosbarthwyd copïau o'r holiadur a gofynnwyd i'r aelodau i'w cwblhau a'u dychwelyd at Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref. Bydd copïau yn cael eu hailanfon yn electronig.

ii. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**: 19 Mai, 2015

**Gadarnhawyd yn y Cyfarfod y Fforwm a gynhaliwyd ar 19.05.15**

**Cadeirydd**